# Cyngor Cymuned Ganllwyd

Cofnodion cyfarfod Hydref 9fed 2019.

1.**Presennol**

Cynghorwyr G.Hughes,C.Dixon,D.Morris a C.Edwards.

2. **Ymddiheuriadau**

Cyng C.Roberts,Cyng Edwards,Cyng Jones

3.**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater.**

Dim.

4.**Cofnodion mis Medi 2019.**

Cynnigiwyd y cofnodion yn gywir gan Cyng Dixon eiliwyd gan Cyng Edwards.

5.**Materion yn codi.**

Bydd adran priffyrdd y Cyngor yn rhoi sylw i broblem yn ymwneud a rhododendron ar y A470 rhwng Llanelltyd a Ganllwyd ar rhaglen waith y Gaeaf.

Cais cynllunio NP5/60/159 Mast yn ardal Maes yr Eglwys Wen.

Bydd yr achos yma i'w glywed yng nghyfarfod cynllunio mis Rhagfyr.

6.**Cynghorydd Sir.**

Ddim yn bresennol.

7.**Cyfarfod gyda CNC.**

Bydd aelodau'r CNC yn mynychu cyfarfod y cyngor yn mis Rhagfyr.

8.**Contract gwaith.**

Mae'r cyngor wedi arwyddo contract gwaith y Clerc.

9. **Materion ariannol.**

Awdit Allanol 2018-19.

Fe wnaeth yr archwilydd (BDO) y sylwadau canlynol;

A) Rhaid i'r cyngor weithredu'r argymhellion gafodd eu gwneud gan yr archwilydd mewnol i wella systemau ariannol y cyngor.

B) Rhaid i’r cyngor nodi’r cyfeirnod cofnodion a’r dyddiad ar gyfer cymeradwyo’r datganiadau cyfrifo a’r datganiadau cyfrifo a’r datganiad llywodraethiant blynyddol.

Derbyniwyd canlyniadau'r archwiliad gan y cyngor a byddai'n gweithredu ar ei ddatganiadau.

Cyllid misol Medi 2019

| | |
|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau’r Mis:** | **£4820.94** |
| | |
| **Derbyniwyd:** | |
| **Ad daliad cynnal a chadw llwybrau** | **£577.10** |
| **Precept** | **£1500.00** |
| **Taliadau:** | |
| **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| | |
| **Yn y Banc diwedd mis** | **£6798.04** |

Mae’r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg ariannol y cyngor.

Rhodd- derbynnwyd rhodd o £500 gan Matt Ward Coed y Brenin,Ganllwyd.

10.**Llythyrau & E-Byst.**

Mae'r cyngor yn cefnogi Mabon ap Gwynfor (Plaid Cymru) mewn perthynas â sefydlu Canolfan Gofal Canser yng Ngogledd Cymru, bydd llythyr cefnogaeth yn cael ei anfon i swyddfa Plaid Cymru yn Dolgellau i gadarnhau hyn.

Cyngor Gwynedd- derbynnwyd llythyr yn cynnwys rhaglen waith Hydref 2019.

11.**Unrhyw fater arall.**

Mae'r cyngor wedi cael gwybod gan drigolion pryderus am yr hyn y gellir ei ddisgrifio fel gweithgaredd adeiladu ar y tir sy'n cylchdroi Hen Dolfrwynog, Hermon, Ganllwyd.

Cloddiwyd 4 "sylfaen" ar y tir hwn.

Mae'r cyngor wedi gofyn i'r clerc gysylltu â Parc Cenedlaethol a chanfod os ydynt yn ymwybodol o'r weithgaredd hon.

Cyng Dixon wedi derbyn gwybodaeth fod arwydd “No Entry” ar llwybr cerdded 58 yn Hermon. Clerc i gysylltu a Liz Haynes i sefydlu pam fod yr arwydd wedi cael ei lleoli yno.